## Beth mae ISVA yn ei olygu?

Mae'n golygu
Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol..

## A yw'r ISVA yn gweithio i'r heddlu?

Nac ydynt, maent yn gweithio'n annibynnol o'r heddlu a'r llysoedd. Maent yn gweithio i'ch helpu chi.

## A yw'r ISVA yn cynnig gwasanaethau cyfreithiol?

Nac ydy, maent yn cynnig help emosiynol ac ymarferol ar gyfer eich anghenion tymor byr a hir a gwybodaeth diduedd.

## Beth fydd hyd apwyntiadau?

Maent yn hyblyg i gyd-fynd â'ch anghenion.

## A yw'r ISVA yn cynnig gwasanaethau galw i mewn??

Nac ydy, oherwydd gwahanol leoliadau a dyletswyddau'r ISVA, rhaid trefnu apwyntiadau ymlaen llaw.
Bydd y ISVA yn gweithio â rhai sy'n defnyddio gwasanaeth cwnsela RASASCGC yn unig.

## A oes gwasanaethau tu allan i oriau?

Nac oes, yr oriau gweithio yw Llun-Gwener, 8:00-16:00

## Os na fyddaf yn adrodd, a allaf ddefnyddior gwasanaeth?

Gallwch, gellir gofyn am wasanaeth ISVA ar unrhyw adeg yn ystod eich siwrnai gwnsela i'ch helpu i wneud penderfyniadau am eich profiad.


01248 670628

www.rasawales.org.uk

11 Ash Court,
Ffordd y Llyn, Parc Menai,
Bangor, LL57 4DF


Mae ISVA yn rhan o wasanaeth cwnsela RASASCGC,
ac ni ellir eu defnyddio'n annibynnol fel gwasanaeth ar wahân i'r gwasanaeth cwnsela

# ISVA

## CYNGHORYDD TRAIS RHYWIOL ANNIBYNOL

Cyngor a Chymorth cyfrinachol am ddim i oroeswyr trais rhywiol yng Ngogledd Cymru

Gogledd Cymru
rasasc
North Wales

Canolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru
Rape and Sexual Abuse Support Centre

## Beth yw ISVA?

Mae ISVA yn Gynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol: arbenigwyr hyfforddedig sy'n cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol heb feirniadu i oroeswyr trais rhywiol.

Rôl ISVA yw gweithio â goroeswyr a'u helpu i gael gafael ar wasanaethau cymorth eraill a rhoi sylw i'w hanghenion tymor byr a hir.

## Beth ydym yn ei wneud?

- Rydym yn gwrando, credu a helpu
- Gyda'n gilydd rydym yn asesu eich anghenion, yn datblygu cynllun ar gyfer eich diogelwch a'ch llesiant
- Rhannu gwybodaeth ddiduedd i'ch galluogi i wneud dewisiadau
- Egluro proses yr heddlu, y Broses Cyfiawnder Troseddol a beth i'w ddisgwyl os byddwch yn dewis adrodd.
- Atgyfeirio a chysylltu'n agos ag asiantaethau eraill perthnasol
- Mynd gyda chi i apwyntiadau pwysig
- Eich helpu gyda'ch camau nesaf ar ôl y broses gyfreithiol
- Gwneud yn siŵr eich bod yn cael help drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol

## Beth Nesaf?

### Sut i'w Ddefnyddio?

Os ydych wedi goroesi trais rhywiol yn ddiweddar neu yn y gorffennol neu'n aelod o deulu/gofalwr/neu anwylyn arall sydd eisoes yn cael cwnsela RASASCGC ffoniwch neu e-bostiwch y gwasanaeth i siarad â'ch cwnselydd.

Bydd eich ISVA fel arfer yn cysylltu â chi drwy'r dull o'ch dewis i gyflwyno'u hunain ac i drefnu eich apwyntiad cyntaf mewn lleoliad niwtral. Yn yr apwyntiad hwn byddant yn egluro'r gwasanaeth ac yn ateb unrhyw gwestiynau.

### A fyddaf dim ond yn cael ISVA os wyf yn dewis adrodd i'r Heddlu?

Na, mi allwch gael CTRhA hyd yn oed os byddwch yn dewis peidio adrodd. Os byddwch yn penderfynu bwrw ymlaen byddant yn sicrhau eich bod yn cael help drwy gydol y broses.

### Cyfrinachedd

Mae'r gwasanaeth hwn yn un cyfrinachol. Bydd beth bynnag y byddwch yn ei ddweud wrth eich CTRhA yn cael ei gadw rhyngoch chi'n unig.

Mae cyfrinachedd wedi'i gyfyngu'n unig yn achos polisïau'n ymwneud â diogelu. Cewch ragor o wybodaeth am hyn yn eich cyfarfod cyntaf. Gwneir pob ymdrech i hyrwyddo eich preifatrwydd a'ch urddas

## Gwybodaeth Cysylltu

**Oriau Agor:**

Llun: 8:00 - 16:00

Mawrth: 8:00 - 16:00

Mercher: 8:00 - 16:00

Iau: 8:00 - 16:00

Gwener: 8:00 - 16:00

Swyddfa: **01248 670628**

Llinell Gymorth: **0808 80 10 800**

E-bost: **referral@rasawales.org.uk**

Gwefan: **www.rasawales.org.uk**

Gogledd Cymru
rasasc
North Wales

Rhif Elusen: 1057159